Y COD YMDDYGIAD

Canllaw i aelodau o awdurdodau heddlu Cymru Rhagfyr 2008

Confidence in local democracy

the Standards Board for England

Rhagair

Mae'r canllaw hwn gan Fwrdd Safonau Lloegr yn rhoi golwg gyffredinol ar y Model diwygiedig o'r Cod Ymddygiad. Mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i holl aelodau awdurdodau heddlu Cymru, ac mae'n ofynnol i'r holl aelodau roi addewid y byddant yn ei ddilyn fel rhan o'u datganiadau wrth dderbyn swydd. Nid yw'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i weithredoedd awdurdodau yn eu cyfanrwydd, nag i ymddygiad eu swyddogion a'u gweithwyr.

Nod y tudalennau canlynol yw rhoi dealltwriaeth gyffredinol i chi o'r Cod Ymddygiad a'i ofynion. Ym Mhennod 1 mae cyflwyniad, tra mae Pennod 2 yn amlinellu eich ymrwymiadau dan y Cod Ymddygiad, gan gyfeirio at baragraffau penodol o'r Cod Ymddygiad i gael rhagor o wybodaeth. Mae Pennod 3 a 4 yn ymdrin â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau, ac yn ceisio egluro nifer o ddarpariaethau a welwch yn Rhannau 2 a 3 o'r Cod Ymddygiad. Gallwch gael copi o'r Cod Ymddygiad trwy ei lawr lwytho o www.standardsboard.gov.uk neu i brynu copi wedi ei argraffu, cysylltwch â Llyfrfa Ei Mawrhydi trwy fynd i www.tsoshop.co.uk neu ffonio 0870 242 2345.

Yn y pen draw, fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw cael cyngor penodol gan eich swyddog monitro pan fydd hynny'n addas ac i wneud penderfyniad ar y ffordd fwyaf addas o weithredu.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan Fwrdd Safonau Lloegr dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000* i aelodau awdurdodau heddlu Cymru.

Cynnwys

Pennod 1 **Tudalen 4**

Cyflwyniad

Mabwysiadu'r Model o'r Cod Ymddygiad a'r Deg Egwyddor Gyffredinol ar gyfer Bywyd Cyhoeddus

Penderfynu pryd mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i chi

Pennod 2 **Tudalen 8**

Ymrwymiadau cyffredinol dan y Cod Ymddygiad

Trin eraill â pharch

Cydymffurfio â ddeddfau cydraddoldeb

Bwlio a chodi braw

Niweidio gallu swyddogion yr awdurdod i fod yn ddiduedd

Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

Atal mynediad at wybodaeth

Anfri

Defnyddio eich swydd yn amhriodol

Adnoddau'r awdurdod

Defnyddio adnoddau ar gyfer dibenion priodol yn unig.

Ystyried cyngor a ddarparwyd i chi a rhoi rhesymau

Pennod 3 **Tudalen 16**

Buddiannau personol a niweidiol

Buddiannau personol

– Buddiannau y mae'n rhaid i chi eu cofrestru

– Buddiannau nad ydynt ar eich cofrestr

Buddiannau niweidiol

– Beth yw budd niweidiol?

– Beth i'w wneud pan fydd gennych fudd niweidiol

– Goddefebau

Pennod 4 **Tudalen 29**

Categorïau budd arbennig

Rhoddion a lletygarwch

Gwybodaeth sensitif

1.

Cyflwyniad
Mabwysiadu'r Model o'r Cod Ymddygiad

Dylai eich awdurdod heddlu fod wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad. O 1 Hydref 2007 ymlaen, bydd aelodau o awdurdodau nad ydynt wedi mabwysiadu'r cod yn cael eu cynnwys yn awtomatig ganddo. Os nad yw eich awdurdod wedi gwneud hynny yn barod, mae Bwrdd Safonau Lloegr ('y Bwrdd Safonau') yn annog eich awdurdod i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad ar y cyfle cyntaf. Dylid gwneud hyn i osgoi dryswch gyda'r Cod blaenorol.

Mae'n bwysig hefyd i'r Cod Ymddygiad gael ei fabwysiadu ar ei ffurf model, heb ei ddiwygio. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd o ran y safonau a ddisgwylir. Bydd hefyd yn lleihau'r risg gyfreithiol os bydd eich awdurdod yn mabwysiadu darpariaethau ychwanegol na ellir eu gorfodi.

Ond, mae un eithriad pwysig. Nid yw'r hawl i gyflwyno dadl, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth fel aelod o'r cyhoedd pan fydd gan aelod fudd niweidiol yn ddarpariaeth orfodol ar gyfer awdurdodau heddlu yng Nghymru.

Felly, ni fydd yr hawl hwn yn berthnasol i'ch awdurdod oni bai bod paragraff 12(2) y Cod Ymddygiad yn cael ei fabwysiadu. Ni fydd mabwysiadu'r darpariaethau gorfodol yn unig yn ymgorffori'r newid pwysig hwn.

Deg Egwyddor Gyffredinol Bywyd Cyhoeddus

Mae'r Bwrdd Safonau yn argymell y dylai eich awdurdod gynnwys rhaglith i'r Cod y mae'n ei fabwysiadu, sy'n amlinellu'r deg egwyddor gyffredinol sy'n rheoli ymddygiad aelodau o awdurdodau lleol. Nodir y deg egwyddor gyffredinol yma yn *Ngorchymyn Awdurdodau Perthnasol (Egwyddorion Cyffredinol) 2001*. Fe'u seiliwyd ar y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, ac maent yn ymddangos yn llawn yn **Nhabl 1**.

Mae'r egwyddorion hyn yn diffinio'r safonau y dylai aelodau gadw atynt, a'u hatgoffa o ddiben y Cod Ymddygiad.

Gan nad yw'r egwyddorion hyn yn creu ymrwymiad statudol i aelodau, ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dderbyn honiadau eu bod wedi eu torri.

Ond, dylech fod yn ymwybodol y gall peidio gweithredu yn unol â'r egwyddorion cyffredinol yma gyfateb â thorri'r Cod Ymddygiad. Er enghraifft, trwy roi eich hun mewn sefyllfaoedd lle gellid amau eich didwylledd a'ch unplygrwydd, gall eich ymddygiad fod yn "ymddygiad y gellid ei ystyried yn rhesymol fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar swydd neu awdurdod aelod" fel y nodir ym mharagraff 5 o'r Cod Ymddygiad.

Penderfynu pryd mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i chi

PENNOD 1

Mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i chi:

1. Pryd bynnag y byddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd, gan gynnwys pryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, honni eich bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu, yn rhinwedd eich swydd neu fel cynrychiolydd eich awdurdod.
2. 2. Ar unrhyw adeg[1], pan fydd eich ymddygiad wedi arwain at euogfarn droseddol. Ond, dim ond paragraffau 3(2)(c), 5 a 6(a) sydd yn weithredol yn yr amgylchiadau hyn pan fyddwch yn gweithredu yn breifat. Fel arall, nid yw'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i'ch bywyd preifat.

Pan fyddwch yn cynrychioli eich awdurdod ar awdurdod perthnasol eraill, bydd raid i chi, wrth weithredu dros yr awdurdod hwnnw, gydymffurfio â'i God Ymddygiad.

Fe allwch hefyd gynrychioli eich awdurdod ar gorff arall, er enghraifft fel aelod o bartneriaeth diogelwch cymunedol. Pan fyddwch yn gweithredu dros y corff hwnnw, rhaid i chi gydymffurfio â Chod Ymddygiad eich awdurdod, oni bai ei fod yn gwrthdaro ag ymrwymiadau cyfreithlon y corff arall.

[1] Nodyn Trosiannol: Hyd nes bydd y cod newydd yn dod i rym gyda diffiniad o weithgaredd troseddol i ddibenion y cod, nid yw'r cod presennol yn berthnasol i ymddygiad tu hwnt i gyflawni swyddogaeth fel aelod. Dim ond os byddwch wedi bod yn ymwneud â gweithgaredd sydd â chysylltiad â swyddogaethau eich swydd y bydd unrhyw ymddygiad yn eich bywyd preifat yn cael ei gynnwys dan y Cod Ymddygiad.

Tabl 1 Deg Egwyddor Gyffredinol Bywyd Cyhoeddus

Anhunanoldeb – dylai aelodau wasanaethu budd y cyhoedd yn unig ac ni ddylent fyth roi mantais neu anfantais yn amhriodol i unrhyw unigolyn.

Uniondeb a didwylledd – ni ddylai aelodau roi eu hunain mewn sefyllfaoedd lle gellir amau eu huniondeb neu ddidwylledd, ni ddylent ymddwyn yn amhriodol, a dylent bob amser osgoi ymddangos fel pe baent yn ymddwyn felly.

Gwrthrychedd – dylai aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod, gan gynnwys wrth wneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddiannau.

Atebolrwydd – dylai aelodau fod yn atebol i'r cyhoedd am eu gweithredoedd a'r modd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau, a dylent gydweithredu yn llawn a didwyll ag unrhyw graffu sy'n addas i'w swydd benodol.

Bod yn agored – dylai aelodau fod mor agored â phosibl am eu gweithredoedd a rhai eu hawdurdod, a dylent fod yn barod i roi rhesymau am y gweithredoedd hynny.

Barn bersonol – gall aelodau ystyried barn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, ond dylent lunio eu barn eu hunain ar y materion sydd ger eu bron a gweithredu yn unol â'r canlyniadau hynny.

Parch at eraill – dylai aelodau hyrwyddo cydraddoldeb trwy beidio gwahaniaethu yn anghyfreithlon yn erbyn unrhyw unigolyn, a thrwy drin pobl gyda pharch, beth bynnag fo eu hil, oedran, crefydd, rhyw, tueddfryd rhywiol neu anabledd. Dylent barchu amhleidioldeb ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i weithwyr eraill.

Dyletswydd i gynnal y gyfraith – dylai aelodau gynnal y gyfraith, ac ar bob achlysur, weithredu yn unol â'r ymddiriedaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w roi ynddynt.

Stiwardiaeth – dylai aelodau wneud beth bynnag sydd o fewn eu gallu i sicrhau bod eu hawdurdodau yn defnyddio eu hadnoddau yn ddoeth, ac yn unol â'r gyfraith.

Arweinyddiaeth – dylai aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth, a thrwy esiampl, a dylent weithredu mewn modd sy'n sicrhau neu'n cadw hyder y cyhoedd.

2.

Ymrwymiadau cyffredinol dan y Cod Ymddygiad

Trin eraill â pharch

Gweler Paragraff 3(1)

Rhaid i chi drin eraill â pharch.

Mewn gwleidyddiaeth, mae'n gyffredin gweld grwpiau sy'n gwrthwynebu ei gilydd, naill ai mewn pleidiau gwleidyddol ffurfiol neu mewn cynghreiriau mwy anffurfiol. Disgwylir y bydd pob un yn ymgyrchu dros ei syniadau, ac fe allant hefyd geisio difrïo polisïau a gweithredoedd eu gwrthwynebwyr. Mae beirniadu syniadau a barn yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd, ac nid yw ynddo ei hun yn cyfateb â bwlio neu beidio â thrin rhywun â pharch.

Gall syniadau a pholisïau gael eu beirniadu'n gadarn, ond ni ddylai unigolion ddioddef ymosodiad personol afresymol nac eithafol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ymdrin â'r cyhoedd a swyddogion. Disgwylir i gadeiryddion cyfarfodydd weithredu rheolau trafodaeth a rheolau gweithdrefn neu orchmynion sefydlog i atal ymddygiad ymosodol neu anhrefnus.

Er ei fod yn cael ei gydnabod y gall rhai aelodau o'r cyhoedd roi galwadau afresymol ar aelodau, fe ddylai'r aelodau, cyn belled ag y gallant, drin y cyhoedd yn gwrtais ac ystyriol. Mae ymddygiad anghwrtais ac ymosodol yn gostwng disgwyliadau'r cyhoedd a'u hyder yn eu cynrychiolwyr penodedig.

Cydymffurfio â deddfau cydraddoldeb

Gweler Paragraff 3(2)(a)

Rhaid i chi beidio â gwneud dim a all beri i'ch awdurdod dorri unrhyw ddeddfau cydraddoldeb.

Mae deddfau cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol ac oedran.

Mae darpariaethau'r deddfau hyn yn gymhleth. Yn gryno, mae pedwar prif ffurf ar wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol neu oedran.

- Gwahaniaethu anuniongyrchol: triniaeth nad yw'n ymddangos fel pe bai'n gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu hil, rhyw, anabledd, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol neu oedran, ond sy'n creu anfantais anghymesur iddynt.

- Aflonyddu: ymddwyn mewn modd nad oes ei eisiau ar sail rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol neu oedran, sy'n amharu ar urddas unigolyn arall neu sy'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, gwaradwyddus neu ymosodol.

- Erledigaeth: trin unigolyn yn llai ffafriol oherwydd ei fod wedi cwyno am wahaniaethu, dwyn achos am wahaniaethu, neu fod â rhan mewn cwyno am wahaniaethu neu ddwyn achos.

Mae deddfau cydraddoldeb hefyd yn gosod dyletswyddau cadarnhaol i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. Maent hefyd yn gosod dyletswyddau cadarnhaol penodol ar rai awdurdodau.

Dan ddeddfau cydraddoldeb, gall eich awdurdod fod yn atebol am unrhyw weithredoedd gwahaniaethol y byddwch chi'n eu cyflawni. Bydd hyn yn berthnasol pan fyddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swydd mewn modd gwahaniaethol.

Rhaid i chi ofalu peidio gweithredu mewn modd a all gyfateb i un o'r ffurfiau a waherddir ar wahaniaethu, na gwneud dim sy'n atal eich awdurdod rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol dan ddeddfau cydraddoldeb. Gall ymddygiad o'r fath beri i'ch awdurdod dorri'r gyfraith, ac fe allech fod yn destun cwyn eich bod wedi torri'r paragraff hwn o'r Cod Ymddygiad.

Bwlio a chodi braw

Gweler Paragraffau 3(2)(b) a 3(2)(c)

Rhaid i chi beidio bwlio unrhyw unigolyn gan gynnwys aelodau eraill o'r awdurdod, swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd.

Gall bwlio gael ei nodweddu gan ymddygiad ymosodol, brawychus, maleisus, sarhaus neu waradwyddus. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu fod yn rhan o batrwm o ymddygiad a gyfeiriwyd at unigolyn gwannach neu unigolyn y mae gennych ddylanwad gwirioneddol neu a amgyffredir drosto. Mae bwlio yn ceisio tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion, mae'n niweidiol i'w hyder a'u gallu, a gall effeithio yn niweidiol ar eu hiechyd.

Gellir cyferbynnu hyn â'r heriau cyfreithlon y gall aelod eu gwneud wrth herio polisi neu graffu ar berfformiad. Enghraifft o hyn fyddai trafodaeth mewn ystafell gyfarfod am bolisi, neu ofyn i swyddogion esbonio'r rhesymeg tu ôl i'r farn broffesiynol y maent wedi ei chyflwyno. Mae gennych hawl i herio cyd-aelodau a swyddogion ynglŷn â'u rhesymau dros arddel barn arbennig.

Mae achosion tribiwnlys Panel Dyfarnu Lloegr yn ddiweddar wedi cadarnhau y gellir disgwyl i uwch swyddogion dderbyn sialensiau cryfach a chadarnach na swyddogion iau cyn i baragraff 3(2)(b) gael ei ddefnyddio. Er na fydd Panel Dyfarnu Lloegr yn dyfarnu ar gwynion am aelodau o Awdurdodau Heddlu Cymru, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn dilyn dull y Panel yn y cyswllt hwn.

Mae'n bwysig i chi godi materion am berfformiad gwael yn y modd cywir ac yn y fforwm priodol. Ond, os yw eich beirniadaeth yn ymosodiad personol neu yn ymosodol ei natur, rydych yn debygol o groesi'r ffin o ran ymddygiad derbyniol.

Rhaid i chi beidio bygwth neu geisio bygwth unrhyw unigolyn sydd, neu sy'n debygol o fod yn achwynydd, tyst, neu yn ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu gamau yn ymwneud â pheidio cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Waeth pa mor bryderus ydych chi am honiadau eich bod chi neu gyd aelod wedi peidio cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, mae bwlio, bygwth neu geisio bygwth unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad yn anghywir bob amser. Er, efallai, nad ydych wedi torri'r Cod Ymddygiad, byddwch yn cael dweud eich dweud yn ystod unrhyw ymchwiliad annibynnol neu wrandawiad, a dylech adael i'r prosesau hyn ddilyn eu llwybr naturiol.

Os byddwch yn bygwth tyst mewn ymchwiliad am eich ymddygiad, er enghraifft, fe allwch fod yn destun i gŵyn arall eich bod wedi torri'r paragraff hwn o'r Cod Ymddygiad.

Niweidio gallu swyddogion yr awdurdod i fod yn ddiduedd

Gweler Paragraff 3(2)(d)

Rhaid i chi beidio niweidio, neu geisio niweidio, gallu unrhyw un sy'n gweithio i'r awdurdod neu ar ei ran i fod yn ddiduedd.

Ni ddylech gysylltu na rhoi pwysau ar unrhyw un sy'n gweithio i'r awdurdod neu ar ei ran i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd rhagfarnllyd neu bleidiol. Mae'n rhaid iddynt fod yn niwtral ac ni ddylid rhoi pwysau arnynt na'u darbwyllo i weithredu mewn ffordd a fyddai'n tanseilio eu niwtraliaeth. Er enghraifft, ni ddylech gael cymorth gan swyddogion i'ch helpu i baratoi deunydd ar gyfer plaid wleidyddol, neu i'ch helpu gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat. Ni ddylech ddarparu na chynnig unrhyw gymhelliant na gwobr am weithredu mewn modd arbennig neu wneud penderfyniad penodol.

Er y gallwch holi swyddogion yn drwyadl er mwyn deall, er enghraifft, eu rhesymau dros gynnig gweithredu mewn modd arbennig, neu gynnwys adroddiad y maen nhw wedi ei ysgrifennu, rhaid i chi beidio ceisio eu gorfodi i weithredu'n wahanol, newid eu cyngor, neu newid cynnwys yr adroddiad hwnnw, os byddai gwneud hynny yn niweidio eu didwylledd proffesiynol.

Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

Gweler Paragraff 4(a)

Rhaid i chi beidio datgelu gwybodaeth gyfrinachol, na gwybodaeth yr ydych yn credu sydd yn gyfrinachol ei natur, ac eithrio yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Bod gennych ganiatâd yr unigolyn sydd â'r hawl i'w roi.
- Ei bod yn ofynnol i chi wneud hynny yn ôl y gyfraith.

- Bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti i gael barn broffesiynol (er enghraifft, eich cyfreithiwr neu ymgynghorydd proffesiynol arall) ar yr amod bod yr unigolyn hwnnw yn cytuno i beidio datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall.

- Bod y datgelu er budd y cyhoedd. Dim ond mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig y mae cyfiawnhad dros hyn, pan fydd y cyfan o'r pedwar gofyniad isod yn cael eu bodloni:

  1. rhaid i'r datgeliad fod yn rhesymol

  2. rhaid i'r datgeliad fod er budd y cyhoedd

  3. rhaid i'r datgeliad gael ei wneud gyda phob ewyllys da

  4. rhaid i'r datgeliad gael ei wneud yn unol ag unrhyw ofynion rhesymol gan eich awdurdod

Yng nghyswllt datgelu gwybodaeth gyfrinachol er budd y cyhoedd, mae'r pedwar gofyniad y mae'n rhaid eu bodloni yn cael eu hamlinellu yn fwy manwl isod.

1. Mae'r gofyniad cyntaf, bod rhaid i'r datgeliad fod yn rhesymol, yn gofyn i chi ystyried materion fel:

   - A ydych yn credu bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu, ac unrhyw honiadau ynddi, yn rhai y gellir eu profi fel rhai gwir? Os nad ydych yn credu hynny, mae'n annhebygol y bydd y datgeliad yn rhesymol.

   - Os ydych yn gwneud y datgeliad er budd personol. Os byddwch yn cael eich talu am ddatgelu gwybodaeth, mae'n annhebygol bod y datgeliad yn rhesymol.

   - Pwy yw'r unigolyn yr ydych yn datgelu'r wybodaeth iddo. Gall fod yn rhesymol datgelu gwybodaeth i'r heddlu neu reoleiddiwr addas. Mae'n llai tebygol o fod yn rhesymol i chi ddatgelu'r wybodaeth i'r byd a'r betws trwy'r cyfryngau.

   - Manylder y wybodaeth a ddatgelir. Mae cynnwys manylion diangen, ac yn arbennig materion preifat fel cyfeiriadau neu rifau ffôn, yn debygol o wneud y datgelu yn afresymol.

   - Difrifoldeb y mater. Po fwyaf difrifol yw'r mater a ddatgelir, mwyaf tebygol yw hi y bydd y datgeliad yn rhesymol.

   - Amseriad y datgelu. Os yw'r mater y mae'r datgelu yn ymwneud ag ef eisoes wedi digwydd, a'i fod yn annhebygol o ddigwydd eto, gall y datgeliad fod yn llai tebygol o fod yn rhesymol nag os yw'r mater yn parhau, neu os yw'n debygol o ddigwydd eto.

   - A yw'r datgeliad yn ymwneud â'ch awdurdod yn peidio cyflawni dyletswydd o gyfrinachedd sy'n ddyledus i unigolyn arall.

2. Rhaid i'r ail ofyniad, bod y datgeliad er budd y cyhoedd, fod yn ymwneud ag un neu fwy o'r materion canlynol neu rywbeth sydd yn debyg o ran difrifoldeb sydd naill ai wedi digwydd yn y gorffennol, yn digwydd ar hyn o bryd, neu sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol:

   (a) Bod trosedd yn cael ei chyflawni.

   (b) Bod eich awdurdod neu ryw unigolyn arall yn peidio cydymffurfio ag unrhyw ymrwymiad cyfreithiol y maent yn ddarostyngedig iddo.

   (c) Bod camwedd cyfiawnder yn digwydd.

   (d) Bod iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn mewn perygl.

   (e) Bod yr amgylchedd yn debygol o gael ei difrodi.

   (f) Bod gwybodaeth sy'n dueddol o ddangos unrhyw fater sy'n disgyn o fewn (a) i (e) yn cael ei chuddio yn fwriadol.

3. Ni fydd y trydydd gofyniad, i'r datgeliad gael ei wneud gyda phob ewyllys da, yn cael ei gyflawni os byddwch yn gweithredu gyda chymhelliant gwahanol, er enghraifft, i gael mantais i blaid wleidyddol neu i dalu yn ôl i gyd-aelod neu wrthwynebwr.

4. Mae'r pedwerydd gofyniad, eich bod yn cydymffurfio â gofynion rhesymol eich awdurdod, yn golygu, cyn gwneud y datgeliad, bod rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau neu brotocolau'r awdurdod ar faterion fel chwythu'r chwiban a gwybodaeth gyfrinachol. Rhaid i chi fynegi eich pryderon trwy'r sianeli priodol a nodir mewn polisïau a phrotocolau o'r fath yn gyntaf.

I grynhoi, er mwyn penderfynu a yw datgeliad yn rhesymol ac er budd y cyhoedd, efallai y bydd raid i chi wneud ymarfer tafoli gan wrthbwyso'r budd i'r cyhoedd o gynnal cyfrinachedd gydag unrhyw fudd cyhoeddus sy'n ffafrio datgelu. Bydd hyn yn gofyn am ffocws gofalus ar ba mor gyfrinachol yw'r wybodaeth, ar unrhyw ganlyniadau all fod yn niweidiol o'i datgelu, ac ar unrhyw ffactorau a all gyfiawnhau datgelu er gwaethaf y canlyniadau posibl.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n eithriadol o anhebygol y gellir cyfiawnhau datgeliad er budd y cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys pan fydd datgelu yn cyfateb i drosedd, neu pan fydd y wybodaeth a ddatgelir yn cael ei diogelu gan fraint broffesiynol gyfreithiol.

Atal mynediad at wybodaeth

Gweler Paragraff 4(b)

Rhaid i chi beidio atal unrhyw un rhag cael gwybodaeth y mae ganddo/ganddi hawl i'w chael yn gyfreithiol

Rhaid i chi beidio atal unrhyw un rhag cael gwybodaeth y mae ganddynt hawl iddi yn gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* neu'r copïau o gofnodion, agendau, adroddiadau a dogfennau eraill eich awdurdod y mae ganddynt hawl i gael mynediad atynt. Er mwyn darganfod rhagor am y mathau o wybodaeth y gall y cyhoedd gael mynediad ati, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy fynd i www.ico.gov.uk neu trwy ffonio 0845 630 6060.

Anfri

Gweler Paragraff 5

Rhaid i chi beidio dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod tra byddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd, neu ar unrhyw adeg trwy weithgaredd troseddol sy'n arwain at euogfarn droseddol.[2]

[2] Nodyn Trosiannol: Hyd nes bydd y cod newydd yn dod i rym, gyda diffiniad o weithgaredd troseddol ar gyfer dibenion y cod, nid yw'r cod presennol yn berthnasol i ymddygiad tu allan i gyflawni swyddogaeth fel aelod. Dim ond os byddwch wedi bod yn ymwneud â gweithgaredd sydd â chysylltiad â swyddogaethau eich swydd y bydd unrhyw ymddygiad yn eich bywyd preifat yn cael ei gynnwys dan y Cod Ymddygiad.

Fel aelod, mae eich gweithredoedd yn destun mwy o graffu nag aelodau arferol o'r cyhoedd. Dylech fod yn ymwybodol y bydd eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat yn gallu cael effaith niweidiol ar eich swydd neu eich awdurdod. Gall ymddygiad anonest a thwyllodrus yn eich rôl fel aelod ddwyn anfri ar eich awdurdod, fel y gall ymddygiad yn eich bywyd preifat sy'n arwain at euogfarn droseddol, fel ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar.

Defnyddio eich swydd yn amhriodol

Gweler Paragraff 6(a)

Rhaid i chi beidio defnyddio, neu geisio defnyddio, eich swydd yn amhriodol er mantais neu anfantais i chi neu rywun arall.

Ni ddylech ddefnyddio, neu geisio defnyddio, eich swydd gyhoeddus er budd neu golled bersonol i chi neu rywun arall. Er enghraifft, byddai eich ymddygiad yn amhriodol petaech yn ceisio hyrwyddo eich buddiannau preifat eich hun trwy eich statws fel aelod.

Yn ychwanegol at baragraff 6(a), mae paragraff 12 hefyd yn berthnasol i ddefnyddio eich swydd yn briodol. Mae paragraff 12 yn cefnogi eich rôl fel eiriolwr cymunedol, yn cynrychioli ac yn siarad dros bryderon eich cymuned, hyd yn oed pan fydd gennych fudd niweidiol. Mae'r hawl

hwn yn berthnasol i chi mewn cyfarfodydd lle mae gennych hawl statudol i siarad neu eich bod yn cael yr un cyfle i siarad ag y byddai aelodau arferol o'r cyhoedd yn ei gael. Os nad yw eich awdurdod yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod perthnasol er mwyn ei annerch, ni fydd paragraff 12 yn berthnasol i chi oni bai bod gennych hawl statudol i siarad ar y mater.

Rhaid i chi adael yr ystafell ar unwaith wedi i chi wneud eich cyflwyniad, rhoi eich tystiolaeth, neu ateb cwestiynau, a pheidio gwneud unrhyw ymdrech arall i ddylanwadu ar y penderfyniad. Os bydd y cyfarfod yn penderfynu bod rhaid i chi stopio siarad yn y cyfarfod, hyd yn oed os oes gennych fwy i'w ddweud, bydd raid i chi stopio a gadael yr ystafell. Os byddwch yn peidio cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r cyfarfod neu baragraff 12 o'r Cod Ymddygiad, fe ellir dyfarnu eich bod wedi cael dylanwad amhriodol ar y penderfyniad.

Adnoddau'r awdurdod

Gweler Paragraff 6(b)(i)

Dim ond yn unol â gofynion yr awdurdod y dylech ddefnyddio adnoddau'r awdurdod neu ganiatáu iddynt gael eu defnyddio.

Pan fydd eich awdurdod yn darparu adnoddau i chi (er enghraifft teleffon, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill, cludiant neu gefnogaeth gan weithwyr yr awdurdod), dim ond ar gyfer cyflawni busnes eich awdurdod ac unrhyw weithgaredd arall y mae eich awdurdod wedi caniatáu i chi eu defnyddio ar ei gyfer y dylech eu defnyddio.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich awdurdod. Bydd peidio cydymffurfio â rheolau eich awdurdod yn debygol o gyfrif fel torri'r Cod Ymddygiad.

Os byddwch yn caniatáu i rywun (aelod o'ch teulu er enghraifft) ddefnyddio adnoddau eich awdurdod, rhaid i chi fod yn ofalus eich bod yn sicrhau bod hyn yn cael ei ganiatáu gan reolau eich awdurdod.

Defnyddio adnoddau ar gyfer dibenion priodol yn unig

Gweler Paragraffau 6(b)(ii) a 6(c)

Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn defnyddio adnoddau eich awdurdod ar gyfer dibenion priodol yn unig. Nid yw'n briodol defnyddio, neu ganiatáu i eraill ddefnyddio, yr adnoddau ar gyfer dibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion plaid wleidyddol. Ni ddylech fyth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod ar gyfer dylunio a dosbarthu deunydd plaid wleidyddol a gynhyrchwyd ar gyfer ennill cyhoeddusrwydd.

Nid yw paragraff 6(c) yn orfodol i awdurdodau heddlu Cymru. Ond, gall eich awdurdod ddewis cynnwys y paragraff hwn yn y Cod y mae eich awdurdod yn ei fabwysiadu.

Os bydd eich awdurdod yn dewis cynnwys paragraff 6(c) rhaid i chi ystyried unrhyw God Cyhoeddusrwydd Awdurdod Lleol a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1986.

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a osodir ar eich defnydd o adnoddau. Bydd defnyddio adnoddau eich awdurdod tu allan i'r cyfyngiadau hyn yn debygol o gael ei gyfrif yn dorri'r Cod Ymddygiad.

Ystyried cyngor a ddarperir i chi a rhoi rhesymau

Gweler Paragraff 7

Rhaid i chi ystyried cyngor gan eich swyddog monitro neu'r swyddog a benodir dan Adran 112 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sydd â chyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol eich Awdurdod yn briodol pan fyddant yn rhoi'r cyngor dan eu dyletswydd statudol.

Os byddwch yn gofyn am gyngor, neu fod cyngor yn cael ei gynnig i chi, er enghraifft, a ddylech gofrestru budd personol neu beidio, dylech ystyried y cyngor hwn cyn penderfynu. Gall peidio gwneud hynny dorri'r Cod Ymddygiad.

Rhaid i chi roi rhesymau am bob penderfyniad yn unol â'r gofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol a osodir gan eich awdurdod. Mae rhoi rhesymau am benderfyniadau yn arbennig o bwysig yng nghyswllt penderfyniadau rheoliadol a phenderfyniadau fydd yn effeithio ar hawliau pobl.

Pan fydd aelodau yn anghytuno ag argymhellion swyddog wrth lunio penderfyniad, bydd raid i aelodau fod yn ofalus iawn wrth roi rhesymau clir am y penderfyniad.

3.

Buddiannau personol a niweidiol

Buddiannau personol

Pwyntiau allweddol:

Dau fath o fudd personol

Mae gennych **fudd personol** mewn unrhyw fusnes gan eich awdurdod sy'n ymwneud neu'n sy'n debygol o effeithio:

a) Ar fudd y mae'n rhaid i chi ei **gofrestru.**

b) Budd nad yw ar eich cofrestr, ond pan fydd busnes eich awdurdod yn debygol o effeithio ar eich lles neu sefyllfa ariannol chi, aelodau o'ch teulu, neu bobl y mae gennych gysylltiad agos â nhw, yn fwy nag y byddai'n effeithio ar fwyafrif trigolion ardal yr awdurdod.

Esbonnir y ddau gategori yma o fudd personol yn yr adran hon. Os byddwch yn datgan budd personol gallwch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, oni bai bod eich budd personol hefyd yn **fudd niweidiol.**

Mae'r hyn sy'n cyfateb i fudd niweidiol yn cael ei amlinellu yn yr adran nesaf ar dudalen 22.

Effaith cael budd personol mewn mater

Rhaid i chi ddatgan bod gennych fudd personol, a natur y budd, cyn i'r mater gael ei drafod neu cyn gynted ag y daw yn amlwg i chi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Hyd yn oed os bydd eich budd ar y gofrestr fuddiannau, rhaid i chi ei ddatgan yn y cyfarfodydd pan fydd materion yn ymwneud â'r budd hwnnw yn cael eu trafod, oni bai bod eithriad yn berthnasol. Esbonnir pryd y gall eithriad fod yn berthnasol ar y dudalen gyferbyn.

Eithriad i'r rheol ar ddatgan budd personol i'r cyfarfod

Mae eithriad yn berthnasol pan fydd eich budd yn deillio yn unig o fod yn aelod, neu fod mewn sefyllfa o reolaeth neu rym ar:

1. unrhyw gorff yr ydych wedi ei benodi iddo neu eich enwebu arno gan yr awdurdod

2. unrhyw gorff arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus (awdurdod lleol arall er enghraifft)

Yn yr achosion eithriadol hyn, cyn belled nad oes gennych fudd niweidiol, dim ond pan fyddwch yn siarad ar y mater y bydd raid i chi ddatgan eich budd.

Os oes gennych waith sensitif, y byddech yn hoffi ei ddal yn ôl o'r gofrestr fuddiannau, gweler tudalen 30 am ragor o wybodaeth.

a) Buddiannau y mae'n rhaid i chi eu cofrestru

Pwyntiau allweddol:

Rhaid i bob aelod ddarparu cofnod o'u buddiannau mewn cofrestr gyhoeddus o fuddiannau.

Rhaid i chi ddweud wrth eich swyddog monitro yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o gymryd swydd, neu cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid i'ch cofrestr fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n dod o dan y categorïau a nodir yn y Cod Ymddygiad, a amlinellir isod.

Rhaid i chi gofrestru eich buddiannau fel bod y cyhoedd, staff yr awdurdod a chyd-aelodau yn gwybod pa un o'ch buddiannau all greu gwrthdaro buddiannau. Mae'r gofrestr yn ddogfen y gellir edrych arni pan (neu cyn) i fater godi, ac felly mae'n rhoi cyfle i eraill wybod pa fuddiannau sydd gennych, ac a allent greu gwrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r gofrestr yn eich gwarchod hefyd. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylech ddatgan budd mewn cyfarfod, ond fe all fod yn ddefnyddiol i chi gael gwybod yn fuan os bydd eraill yn meddwl y gallai gwrthdaro posibl godi. Mae'n bwysig hefyd i'r cyhoedd

wybod am unrhyw fudd allai fod yn rhaid i chi neu aelodau eraill eu datgan, fel bod llunio penderfyniadau yn cael ei weld gan y cyhoedd fel rhywbeth sy'n agored a didwyll. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hyder y cyhoedd yng ngonestrwydd llywodraeth leol yn cael ei gynnal.

Fel y nodwyd o'r blaen, rhaid i chi ddweud wrth eich swyddog monitro yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o gymryd eich swydd, neu cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid i'ch cofrestr fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n dod o dan y categorïau a nodir yn y Cod Ymddygiad. Mae'r categorïau hyn yn cynnwys:

- Eich aelodaeth neu eich swydd reoli neu arwain mewn:
  - unrhyw gyrff eraill y penodwyd chi iddynt neu y cawsoch eich enwebu arnynt gan yr awdurdod
  - unrhyw gyrff **sy'n arfer swyddogaeth o natur gyhoeddus** (a ddisgrifir isod), neu sydd ar gyfer dibenion elusennol, neu y mae eu prif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn y cyhoedd ar bolisi, gan gynnwys unrhyw blaid wleidyddol neu undeb llafur
- Eich swydd(i) neu fusnes(au).
- Enw eich cyflogwr neu bobl sydd wedi eich penodi i weithio iddynt.
- Enw unrhyw unigolyn sydd wedi talu i chi oherwydd eich ethol, neu dreuliau yr ydych wedi eu tynnu wrth gyflawni eich dyletswyddau.
- Enw unrhyw unigolyn, cwmni neu gorff arall sydd â man busnes neu dir yn ardal yr awdurdod, ac y mae gennych gyfranddaliad ynddo o fwy na £25,000 (gwerth enwol) neu â chyfran o fwy na 1/100fed o gyfalaf cyfranddaliadau'r cwmni.
- Unrhyw gytundebau rhwng yr awdurdod a chi, eich ffyrm (os ydych yn bartner) neu gwmni (os ydych yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu os oes gennych gyfranddaliad fel y nodir uchod) gan gynnwys unrhyw brydles, trwydded gan yr awdurdod ac unrhyw gytundebau am nwyddau, gwasanaethau neu waith. Pan fydd y cytundeb yn ymwneud â defnyddio tir neu eiddo, rhaid i'r tir fod wedi ei nodi ar y gofrestr.
- Unrhyw rodd neu letygarwch dros £25 o werth y byddwch yn ei dderbyn fel aelod a'r unigolyn yr ydych yn ei gredu oedd ffynhonnell y rhodd neu letygarwch.
- Unrhyw dir ac eiddo yn ardal yr awdurdod y mae gennych fudd manteisiol ynddo (neu drwydded i'w feddiannu am fwy na 28 diwrnod) gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, y tir a'r tŷ yr ydych yn byw ynddo ac unrhyw randiroedd sy'n eiddo i chi neu yr ydych yn eu defnyddio.

Os oes gennych waith sensitif, y byddech yn hoffi ei ddal yn ôl o'r gofrestr fuddiannau, gweler tudalen 30 am ragor o wybodaeth.

Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur"?

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur" wedi cael ei ddehongli yn eang gan y llysoedd ar gyfer amrywiaeth o ddibenion gwahanol. Er na ellid cynhyrchu rhestr ddiffiniol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw'r corff yn bodloni'r diffiniad neu beidio:

- A yw'r corff yn cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r corff yn cymryd lle llywodraeth leol neu ganolog wrth gyflawni'r swyddogaeth?
- A yw'r corff (gan gynnwys un o'r tu allan yn y sector preifat) yn arfer swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan awdurdod cyhoeddus?
- A yw'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer dan ddeddfwriaeth neu yn unol â rhyw rym statudol?
- A all y corff gael ei adolygu'n farnwrol?

Oni bai eich bod yn rhoi ateb cadarnhaol i un o'r cwestiynau uchod, mae'n anhebygol bod y corff yn eich achos chi yn arfer swyddogaethau sy'n gyhoeddus eu natur.

Enghreifftiau o gyrff sy'n cael eu cynnwys yn y diffiniad yw: asiantaethau datblygu rhanbarthol a lleol, asiantaethau eraill y llywodraeth, cynghorau eraill, cyrff iechyd cyhoeddus, cwmnïau sy'n eiddo i'r cyngor sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus, cyrff rheoli hyd braich sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaeth ar ran eich awdurdod, cydbwyllgorau.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth neu gyngor penodol ar y mater hwn, cysylltwch â'ch swyddog monitro.

b) Buddiannau nad ydynt ar eich cofrestr

Pwyntiau allweddol:

Mae gennych fudd personol mewn mater os yw'r mater hwnnw yn effeithio ar eich **lles neu sefyllfa ariannol** chi, aelodau o'ch **teulu**, neu bobl y mae gennych **gysylltiad clos â nhw**, yn fwy nag y byddai'n effeithio ar fwyafrif y bobl yn ardal yr awdurdod.

Rhaid i chi hefyd edrych ar sut y byddai unrhyw fater yn effeithio ar eich buddiannau neu rai aelodau o'ch teulu neu gysylltiadau agos. Mae hyn yn cynnwys:

- eich swyddi a busnesau chi a hwythau
- eich cyflogwyr chi a hwythau, cwmnïau yr ydych chi a hwythau yn bartner iddynt, neu gwmnïau yr ydych chi neu y maen nhw yn gyfarwyddwyr arnyn nhw
- unrhyw unigolyn neu gorff sydd wedi eich penodi chi, aelodau o'ch teulu neu gysylltiadau agos, i unrhyw swydd
- cyrff corfforaethol y mae gennych chi neu y mae ganddyn nhw gyfranddaliad o £25,000 neu fwy (gwerth enwol) ynddynt

Beth mae "effeithio ar les neu sefyllfa ariannol" yn ei olygu?

Gall y term 'lles' gael ei ddisgrifio fel cyflwr o fodlonrwydd a hapusrwydd. Mae unrhyw beth a allai effeithio ar ansawdd eich bywyd, boed yn bositif neu negyddol, yn debygol o effeithio ar eich lles.

Gall budd personol effeithio arnoch chi, eich teulu neu gysylltiadau personol agos yn gadarnhaol a negyddol. Felly os oes gennych chi neu nhw'r potensial i ennill neu golli o fater dan ystyriaeth, byddai'n rhaid i fudd personol gael ei ddatgan yn y ddwy sefyllfa.

Pwy sy'n aelod o'ch teulu neu gysylltiad agos?

Dylai aelod o'ch teulu gael ystyr eang iawn. Mae'n cynnwys partner (rywun yr ydych yn briod ag ef, eich partner sifil, neu rywun yr ydych yn byw gydag ef/hi mewn sefyllfa debyg), rhiant, rhiant yng nghyfraith, mab neu ferch, llysfab neu lysferch, plentyn partner, brawd neu chwaer, brawd neu chwaer eich partner, taid neu nain, ŵyr neu wyres, ewythr neu fodryb, nai neu nith, a phartneriaid unrhyw un o'r bobl hyn.

Rhywun y byddwch mewn cysylltiad cyson neu anghyson ag ef/hi dros gyfnod o amser sydd yn fwy na chydnabod yw rhywun y mae gennych gysylltiad agos ag ef/hi. Mae'n rhywun y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn medru meddwl y byddech yn barod i'w ffafrio neu beri anfantais iddo wrth drafod mater sy'n effeithio arno/arni. Gall fod yn ffrind, cydweithiwr, cysylltiad busnes neu rywun yr ydych yn ei adnabod trwy gysylltiadau cymdeithasol cyffredinol.

Beth os nad wyf yn ymwybodol o'm budd personol

Dim ond pan fyddwch yn ymwybodol neu y dylech fod yn ymwybodol o fodolaeth budd personol y mae'r ddyletswydd i'w ddatgelu i gyfarfod yn berthnasol.

Yn amlwg ni ellir disgwyl i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono.

Byddai'n anymarferol disgwyl i chi ymchwilio i waith, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill pawb o'ch cysylltiadau agos a'ch perthnasau. Ond, ni ddylech anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt o safbwynt sylwebydd rhesymol a gwrthrychol.

Buddiannau niweidiol

1. Beth yw budd niweidiol?

Pwyntiau allweddol:

Bydd eich budd personol hefyd yn **fudd niweidiol** mewn mater os bydd y cyfan o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

a) Nid yw'r mater yn dod o fewn un o'r penderfyniadau **categorïau a eithriwyd**.

b) Mae'r mater yn effeithio ar eich **buddiannau ariannol** neu mae'n ymwneud â **mater trwyddedu neu reoleiddiol**.

c) Byddai aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol, yn **rhesymol yn meddwl bod eich budd personol mor sylweddol** ei fod yn debygol o niweidio eich barn ar y budd cyhoeddus.

Isod ceir esboniad o bob un o'r pwyntiau hyn.

a) Categorïau o benderfyniadau a eithrir

Mae paragraff 10(2)(c) o'r Cod Ymddygiad yn nodi na fydd gan aelod fudd niweidiol os bydd y mater yn ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau canlynol yr awdurdod:

- Tâl salwch statudol: os byddwch yn derbyn hwn, mae gennych hawl iddo.
- Lwfans, taliad neu indemniad i aelodau.
- Unrhyw anrhydedd seremonïol a roddir i aelodau.
- Gosod treth y cyngor neu bresept.

b) Buddiannau ariannol a materion trwyddedu neu reoleiddio

Dim ond os bydd yn disgyn i un o'r ddau gategori isod y gallwch gael budd niweidiol mewn mater:

a) Mae'r mater yn effeithio ar eich sefyllfa ariannol neu sefyllfa ariannol unrhyw unigolyn neu gorff y mae gennych fudd personol trwyddo ef neu hi.

   Enghreifftiau: cais am arian grant i gorff ar eich cofrestr fuddiannau; cytundeb am wasanaethau rhwng yr awdurdod a'r corff hwnnw; neu brydlesu eiddo i neu gan gysylltiad agos neu aelod o'ch teulu. Fe all effeithio ar eich sefyllfa ariannol yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn ffafriol neu'n anffafriol, yn sylweddol neu'n fychan iawn.

b) Mae'r mater yn ymwneud â chymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad sy'n effeithio arnoch chi neu unrhyw unigolyn neu gorff y mae gennych fudd personol ynddo.

c) Beth sydd mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o niweidio eich barn?

Os gall aelod rhesymol o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth o'r holl ffeithiau perthnasol feddwl y gall eich barn ar y budd cyhoeddus fod wedi ei niweidio, mae gennych fudd niweidiol.

Rhaid i chi holi eich hun a fyddai aelod o'r cyhoedd – petai ef neu hi yn gwybod yr holl ffeithiau perthnasol - yn meddwl bod eich budd personol mor sylweddol fel y byddai'n debygol o niweidio eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r budd gael ei amgyffred fel un sy'n debygol o niweidio neu atal eich gallu i farnu ar fudd y cyhoedd.

Fel arfer ni fydd bodolaeth gwybodaeth leol, neu gysylltiadau yn y gymuned leol yn ddigon i fodloni'r prawf hwn. Rhaid cael rhyw ffactor a all niweidio eich gallu i roi eich barn ar y budd cyhoeddus yn wrthrychol. Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio'n gyfartal ar nifer fawr o bobl neu a yw'n effeithio yn benodol ar grŵp llai.

Rhaid cofio rhai egwyddorion cyffredinol wrth weithredu'r prawf hwn. Dylech weithredu'n glir er budd y cyhoedd ac nid er budd eich teulu neu gysylltiadau agos. Rydych yn geidwad y pwrs cyhoeddus a'r budd cyhoeddus a dylai eich ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

2. Beth i'w wneud os bydd gennych fudd niweidiol

Hyd yn oed pan fydd gennych fudd niweidiol, mae'r Cod Ymddygiad yn cefnogi eich rôl fel eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli eich cymuned ac i siarad ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac i chi.

Ond, nid yw'r hawl hwn yn orfodol i awdurdodau heddlu yng Nghymru. Ni fydd yn berthnasol oni bai bod paragraff 12(2) y cod yn cael ei fabwysiadu gan eich awdurdod a bod y cyhoedd yn cael siarad yng nghyfarfodydd eich awdurdod. Ni fydd mabwysiadu'r darpariaethau gorfodol yn unig yn ymgorffori'r newid pwysig hwn.

Pwyntiau allweddol:

Os oes gennych **fudd niweidiol** mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod, rhaid i chi ddatgan bod gennych fudd niweidiol a natur y budd hwnnw cyn gynted ag y bydd y budd hwnnw yn dod yn amlwg i chi.

Dylech wedyn adael yr ystafell, **oni bai bod aelodau o'r cyhoedd yn cael hawl i roi cyflwyniadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater**, trwy hawl statudol neu fel arall. Os yw hynny'n wir, gallwch chi hefyd fynychu'r cyfarfod i'r diben hwnnw.

Ond rhaid i chi adael yr ystafell ar unwaith wedi i chi orffen neu pan fydd y cyfarfod yn penderfynu eich bod wedi gorffen (os yw hynny'n gynt). Ni allwch aros yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r bleidlais ar y mater.

Yn ychwanegol, rhaid i chi beidio ceisio **cael dylanwad amhriodol** ar benderfyniad y mae gennych fudd niweidiol ynddo. Mae'r rheol hon yn debyg i'ch ymrwymiad cyffredinol i beidio defnyddio eich swydd fel aelod yn amhriodol er mantais neu anfantais i chi neu rywun arall.

A oes gennyf hawl statudol i annerch y cyfarfod?

Nid yw'r Cod Ymddygiad yn darparu hawl cyffredinol i chi annerch cyfarfod pan fydd gennych fudd niweidiol. Ond, mewn amgylchiadau cyfyngedig, gall deddfwriaeth roi hawl i chi siarad (mewn gwrandawiadau safonau er enghraifft) y mae'r Cod Ymddygiad yn eu cydnabod. Os felly, byddwch yn cael defnyddio'r hawl i siarad. Dylai eich swyddog monitro fedru cadarnhau a yw hyn yn berthnasol i'ch achos.

Os nad oes gennyf hawl statudol, a fyddaf yn cael annerch y cyfarfod?

Nod y Cod Ymddygiad yw rhoi'r un hawliau i aelodau ag i aelodau arferol o'r cyhoedd i siarad ar rai materion penodol mewn cyfarfodydd, er gwaethaf bod â budd niweidiol. Fel arfer mae'r hawliau hyn yn cael eu rheoli gan orchmynion sefydlog eich awdurdod, a gallant fod yn ddarostyngedig i amodau gan gynnwys cyfyngiadau amser neu'r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y gellir gwneud cyflwyniadau.

Os bydd aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael annerch cyfarfod am eitem, dylech chithau gael yr un cyfle. Byddwch yn medru gwneud cyflwyniadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fudd niweidiol mewn eitem. Ni chewch gymryd rhan yn y drafodaeth na gwylio'r bleidlais.

Pryd fydd raid i mi adael yr ystafell y mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal ynddi?

Bydd raid i chi adael yn union wedi i chi wneud eich cyflwyniad, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau, a chyn i'r drafodaeth ddechrau.

Os bydd y cyfarfod yn penderfynu y dylech orffen siarad, er gwaethaf eich bwriad i ddweud mwy, rhaid i chi gydymffurfio â phenderfyniad y cyfarfod. Er y gall aelodau o'r cyhoedd gael caniatâd i wylio'r drafodaeth a'r bleidlais ar y mater, ni fyddwch chi'n cael gwneud hynny a bydd raid i chi adael yr ystafell ar unwaith. Gall peidio gwneud hynny gael ei weld fel ymdrech i gael **dylanwad amhriodol** ar y cyfarfod.

Beth mae cael dylanwad amhriodol ar benderfyniad yn ei olygu?

Rhaid i chi beidio defnyddio eich swydd na cheisio defnyddio eich swydd yn amhriodol i hyrwyddo eich buddiannau eich hun mewn ffordd nad yw'n agored i aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Byddai rhoi pwysau ar rywun, aflonyddu, cymell neu orfodi rhywun i gael dylanwad ar fater yn enghreifftiau clir o ddylanwad amhriodol.

Gall fod yn amhriodol hefyd os byddwch yn gwrthod gadael y cyfarfod, neu'n parhau i siarad mewn cyfarfod, ar fater y mae gennych fudd niweidiol ynddo, wedi i'r cyfarfod benderfynu bod rhaid i chi orffen siarad a gadael.

Beth os nad yw'r cyhoedd yn cael annerch y cyfarfod ar y mater?

Os nad yw aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad ar y mater, ni allwch chithau wneud hynny os oes gennych fudd niweidiol. Bydd raid i chi adael yr ystafell lle mae'r drafodaeth yn cael ei chynnal a pheidio ceisio dylanwadu ar y drafodaeth mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn fod yn wir, er enghraifft, pan fydd eich awdurdod yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeëdig neu nad oes ganddo reolau gweithdrefnau neu orchmynion sefydlog yn eu lle sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch cyfarfod o'ch awdurdod. Yn yr un modd â'r cyhoedd, nid ydych yn cael cymryd rhan os oes gennych fudd niweidiol. Ond, pan fydd y cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r cyfarfod, bydd gofyn i chi adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Os oes gennyf fudd niweidiol, sut arall y gallaf gael dylanwad ar y penderfyniad?

Gallwch gyflwyno eich barn i'r cyfarfod trwy ddulliau eraill a dylanwadu ar y penderfyniad mewn ffordd nad yw'n amhriodol.

Er enghraifft, gallwch wneud cyflwyniadau ysgrifenedig fel aelod o'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Safonau yn argymell y dylai bodolaeth a natur y budd gael eu datgelu mewn cyflwyniadau o'r fath. Ni ddylech geisio cael ystyriaeth ffafriol i'ch cyflwyniadau. Dylai cyflwyniadau ysgrifenedig o'r fath gael eu cyfeirio at swyddogion yn hytrach nag aelodau eraill yr awdurdod.

3. Goddefebau

Os oes gennyf fudd niweidiol, a allaf gael goddefeb i mi gael cymryd rhan yn y cyfarfod?

Pwynt allweddol:

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i'ch pwyllgor safonau lleol am oddefeb os byddai dros 50% o aelodau'r awdurdod neu bwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau niweidiol.

Rhaid i chi wneud cais am oddefeb yn unigol ac nid fel awdurdod. Os bydd y pwyllgor safonau yn cymeradwyo eich cais, rhaid iddo roi'r oddefeb yn ysgrifenedig a chyn i'r cyfarfod gael ei gynnal. Os bydd arnoch angen goddefeb, dylech wneud cais am un cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dim ond y pwyllgor safonau all roi goddefeb a bydd yn gwneud hynny yn ôl ei farn ei hun. Bydd raid i'r pwyllgor safonau gydbwyso'r budd cyhoeddus o atal aelodau gyda buddiannau niweidiol rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, gyda'r budd cyhoeddus mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grŵp rhesymol o gynrychioliadol o aelodau o'r awdurdod. Os bydd peidio rhoi goddefeb yn arwain at weld yr awdurdod neu bwyllgor yn methu cael cworwm, gall hyn fod yn sail ar gyfer caniatáu goddefeb.

Ni all y Bwrdd Safonau ganiatáu goddefebau na chynghori a ddylent gael eu caniatáu neu beidio. Am ragor o gyngor ar oddefebau, dylech gysylltu â'ch swyddog monitro.

4.

Categorïau budd arbennig

1. Rhoddion a lletygarwch

Pwyntiau allweddol:

Bydd raid i chi gofrestru unrhyw roddion neu letygarwch s'n **werth £25 neu fwy** y byddwch yn eu derbyn **yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod**, a ffynhonnell y rhodd neu letygarwch.

Bydd raid i chi gofrestru'r rhodd neu letygarwch a'i ffynhonnell cyn pen 28 diwrnod o'i dderbyn.

Yn yr un ffordd â buddiannau eraill yn eich cofrestr fuddiannau, mae gennych **fudd personol** yn awtomatig mewn mater dan ystyriaeth os yw'n debygol o effeithio ar unigolyn sydd wedi rhoi rhodd neu letygarwch sydd wedi ei gofrestru i chi. Os yw hynny'n wir, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu letygarwch, yr unigolyn a'i rhoddodd i chi, sut y mae'r busnes sydd dan ystyriaeth yn ymwneud â'r unigolyn ac yna penderfynu a yw'r budd yn **fudd niweidiol** hefyd.

Wedi i dair blynedd fynd heibio ers i chi gofrestru'r rhodd neu letygarwch ar eich cofrestr fuddiannau, mae eich ymrwymiad i ddatgelu'r budd hwnnw i unrhyw gyfarfod perthnasol yn dod i ben.

A yw'r rhodd neu letygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?

Dylech ofyn i'ch hun, a fyddwn wedi cael hwn pe na byddwn yn aelod o'r awdurdod? Os oes gennych unrhyw amheuaeth o ran y cymhelliad tu ôl i rodd neu letygarwch, rydym yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n cael gair â'ch swyddog monitro pan fydd hynny'n addas.

Nid oes raid i chi gofrestru rhoddion a lletygarwch nad ydynt yn gysylltiedig â'ch rôl fel aelod, fel anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, neu roddion nad ydych yn eu derbyn. Ond, dylech gofrestru rhodd neu letygarwch bob amser os gellid ei weld fel rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich swydd neu os yw eich awdurdod yn gofyn i chi wneud hynny.

Beth os nad wyf yn gwybod gwerth rhodd neu letygarwch?

Y rheol gyffredinol yw, os oes amheuaeth am werth rhodd neu letygarwch, dylech ei gofrestru, fel mater o arfer da ac yn unol â'r egwyddorion o fod yn agored ac atebol mewn bywyd cyhoeddus.

Efallai y bydd raid i chi amcangyfrif beth yw gwerth rhodd neu letygarwch. Hefyd, dylid cofrestru casgliad o roddion mân yr ydych yn eu derbyn o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sy'n cyfateb i £25 neu fwy.

2. Gwybodaeth Sensitif

Pwyntiau allweddol:

Gallwch gael eich eithrio rhag gorfod cynnwys gwybodaeth sensitif ar eich cofrestr fuddiannau. Os yw eich budd personol mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn wybodaeth sensitif, bydd raid i chi ddatgan bod gennych fudd personol ond ni fydd raid i chi roi unrhyw fanylion am natur y budd hwnnw.

Gall gwybodaeth sensitif gynnwys eich gwaith sensitif (fel ymchwil gwyddonol neilltuol neu'r Lluoedd Arbennig) neu fuddiannau eraill sy'n debygol o greu risg difrifol o drais neu fygythiadau yn eich erbyn chi neu rywun sy'n byw gyda chi.

Dylech ddarparu'r wybodaeth hon i'ch swyddog monitro ac esbonio eich pryderon am ddatgelu'r wybodaeth sensitif; gan gynnwys pam ei bod yn debygol o greu perygl difrifol y byddwch chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn dioddef trais neu fygythiadau. Nid oes raid i chi gynnwys y wybodaeth hon yn eich cofrestr fuddiannau, os bydd eich swyddog monitro yn cytuno. Yn y pen draw, chi sy'n gorfod penderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys ar eich cofrestr fuddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd.

NODIADAU

Sut i gysylltu â ni:

The Standards Board for England
Fourth Floor
Griffin House
40 Lever Street
Manchester M1 1BB

www.standardsboard.gov.uk

Am ymholiadau am y Cod Ymddygiad, cysylltwch â:

Llinell ymholiadau: 0845 078 8181
enquiries@standardsboard.gov.uk

Am ragor o gopïau o'r cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:
publications@standardsboard.gov.uk

The Standards Board for England
Fourth Floor
Griffin House
40 Lever Street
Manchester M1 1BB

Llinell ymholiadau: 0845 078 8181

enquiries@standardsboard.gov.uk
www.standardsboard.gov.uk